# Disgrifiad Swydd

# Swyddog Contractau

**Mae'r holl feini prawf yn <u>hanfodol</u> oni nodir fel arall**

**Yn atebol i'r canlynol:** Uwch-swyddog Contractau

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Amherthnasol

**Diben cyffredinol y swydd:** Cynorthwyo'r Pennaeth Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig i gyflawni rhaglenni Barcud ym maes Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, trwy reoli contractau'n gadarn mewn modd sy'n galluogi Barcud i gyflawni ei amcanion busnes a diwallu anghenion ei denantiaid.

**Cyfrifoldebau Allweddol –**

**Rheoli Contractau:**

- Rheoli a monitro contractau darparwyr sy'n cyflawni gweithgareddau i Barcud ym maes Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, gan sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu'n gyson a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau bob amser.
- Cynorthwyo i ddatblygu rhaglen Barcud ym maes Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, gan gynnig mewnbwn technegol yn berthnasol i stoc y Gymdeithas.
- Rhoi neu gael cyngor technegol arbenigol i gydweithwyr ynghylch unrhyw ddiffygion strwythurol, methiannau adeiladu neu broblemau iechyd a diogelwch yn ogystal â sefydlu a chynnal unrhyw drefn fonitro angenrheidiol mewn cysylltiad â'r agweddau hynny.
- Llunio manylebau gwaith, gan sicrhau bod unrhyw waith yn cael ei gwblhau i safon uchel a'i fod yn dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch Barcud a'i weithdrefnau gweithredol ac ariannol.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu prosesau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru ac sy'n gysylltiedig â Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig.
- Darparu gwasanaeth ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, ym maes Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig ar gyfer tenantiaid a lesddeiliaid Barcud.
- Cynnal rhaglen dreigl o arolygon o gyflwr y stoc ac arolygon o ystadau, a chynorthwyo i gynnal yr arolygon hynny, gan sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael am gyflwr eiddo Barcud yn gywir ac yn gyflawn.

- Cael yr holl gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni gwaith arfaethedig y bwriedir eu cyflawni, er enghraifft yng nghyswllt y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli), iechyd a diogelwch, a chontractwyr.
- Cynorthwyo i lunio dogfennau contractau, gan sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am gontractau a bod yr holl warantau cysylltiedig ac unrhyw dystiolaeth o ganiatad a gafwyd yn cael eu cadw ar ffeil.
- Monitro perfformiad contractau, gan nodi problemau gyda darparwyr wrth iddynt godi a gan adrodd yn eu cylch wrth yr aelodau perthnasol o staff uwch er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn gyflym.
- Gweithio gyda staff caffael, pan fydd angen, er mwyn cael contractau newydd i gyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â Chydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig.
- Monitro cynnydd rhaglenni gwaith arfaethedig ar sail amserlenni, gan roi gwybod i gydweithwyr am unrhyw oedi.
- Monitro cyllidebau a risgiau rhaglenni gwaith arfaethedig, gan adrodd wrth aelodau o staff uwch os oes posibilrwydd gallau trothwyon a nodwyd ymlaen llaw cael ei croesi, yn unol â gweithdrefnau Barcud.
- Sicrhau bod eiddo Barcud yn ddiogel i ddeiliaid, trwy reoli gwaith sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch.
- Cynorthwyo i baratoi hawliadau yswiriant sy'n codi o ddiffygion nad ydynt yn amlwg.
- Darparu cyngor arbenigol sy'n gysylltiedig â Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig i gydweithwyr ar draws Barcud.
- Ymateb i ymholiadau tenantiaid ynghylch Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, gan sicrhau bod gwybodaeth dechnegol yn cael ei rhannu'n llwyddiannus ac yn glir.
- Cael ceisiadau gan denantiaid am waith atgyweirio a chynnal a chadw, a'u cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan godi archebion yn ôl yr angen am waith atgyweirio / offer.

**Pobl:**

- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.
- Cynorthwyo i reoli asbestos, gan gynnwys cadw cofnodion cronfeydd data, cynnal asesiadau risg a chyflawni gwaith monitro rheolaidd. Cynghori staff a chontractwyr y Gymdeithas ynghylch y gweithdrefnau cywir sydd i'w dilyn wrth drafod deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.
- Cynorthwyo'r Uwch-swyddog Cydymffurfio i sicrhau bod y Gymdeithas yn cydymffurfio â gofynion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a Deddf Diogelwch Tân 2021 yn ei stoc dai, gan gynnwys llunio ac adolygu Asesiadau Risg Tân a pharatoi yn ôl yr angen gynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer rheoli tân.

**Corfforaethol:**

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisïau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*

# Manyleb Person

## Swyddog Contractau

Mae’r fanyleb person hon yn nodi’r profiad a’r sgiliau sy’n ofynnol ar gyfer swydd y Swyddog Contractau yn Barcud. Mae’r holl sgiliau a’r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

**Cymwysterau**

- Cymhwyster HNC/D mewn Astudiaethau Adeiladu neu Reoli Adeiladu neu gymhwyster cyfwerth yn ymwneud ag adeiladu, neu’n grefftwr cymwys sydd wedi bwrw ei brentisiaeth yn llawn.
- Yn aelod o gorff proffesiynol perthnasol. (D)
- Wedi cael addysg i lefel Safon Uwch neu lefel gyfwerth. (D)
- Tystiolaeth bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei datblygu’n barhaus.

**Profiad**

- Profiad o gyflwyno rhaglenni Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig a Chylchol.
- Profiad o lunio manylebau gwaith.
- Profiad o ymdrin ag ymholiadau gan gwsmeriaid / tenantiaid.
- Profiad o fonitro gwaith darparwyr gwasanaeth.
- Profiad o ddadansoddi problemau a llunio atebion effeithiol.
- Profiad o gaffael gwasanaethau gan ddarparwyr ar gyfer rhaglenni Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig a Chylchol.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu i gymdeithas dai. (D)

**Sgiliau / Gwybodaeth**

- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a rheoliadau sy’n ymwneud â Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig a Chylchol yn ogystal â chontractau gwasanaeth.
- Gwybodaeth am iechyd a diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth am reoli asbestos a diogelwch tân.
- Ymwybyddiaeth o dechnegau sy’n gysylltiedig â’r modd y caiff adeiladau eu codi.
- Gwybodaeth am y gofynion a’r safonau technegol i gwblhau archwiliadau/arolygon cyflwr stoc breswyl.
- Y gallu i gynhyrchu adroddiadau cynhwysfawr o safon er mwyn gallu gwneud penderfyniadau’n effeithiol.

- Yn barod i ddysgu Cymraeg i ALTE lefel 3 cyn pen 2 flynedd (i'r sawl nad yw'n siarad Cymraeg yn barod).
- Y gallu i sicrhau canlyniadau o fewn terfynau amser tynn a than bwysau.
- Sgiliau TG ardderchog.
- Sgiliau cadarn o safbwynt trafod rhifau, rhesymu, a chyfathrebu ysgrifenedig.
- Gallu pendant i ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol a sensitif.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol i'w hun.
- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.